# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

24 Hydref 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M Mason, Museum Development Manager
E. Retallick, Pen Swyddog y Celfyddydau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 2.00 - 2.20 pm

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 11EG AWST 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Awst 2017 yn gofnod cywir.**

## 3. POLISÏAU I GEFNOGI FFURFLEN SAFON ACHREDU AMGUEDDFEYDD SIR GAERFYRDDIN

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r polisïau presennol canlynol sy'n ymwneud â'r gwaith o redeg y Gwasanaeth Amgueddfeydd; fe'u cymeradwywyd yn flaenorol gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden ar 15ed Mawrth 2013.

- Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin – Datganiad y Polisi Mynediad (2017-2022)
- Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin – Polisi Datblygu Casgliadau (2017-2022)
- Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin – Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau (2017-2022)
- Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin – Datganiad y Polisi Dogfennaeth (2017-2022)
- Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin – Polisi Cynaliadwyedd Amgylcheddol (2017-2022)

Nodwyd bod yn rhaid i'r Awdurdod ddarparu tystiolaeth, o dan y Broses Achredu Amgueddfeydd, fod ei bolisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo'n ffurfiol yn y ffurflen achredu, a hynny erbyn 31 Hydref, 2017.

Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Amgueddfeydd at Ddatganiad y Polisi Dogfennaeth a rhoddodd wybod y byddai'r frawddeg gyntaf ar dudalen 4, parthed 'Rheoli Mynediad at Wybodaeth Sensitif', yn cael ei newid, yn amodol ar ei chymeradwyo, i ddarllen fel a ganlyn: "Bydd yr holl geisiadau am wybodaeth yn cael eu hystyried o ran eu cydymffurfiaeth â Mesur Diogelu Data 2017, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000)……."

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newid uchod i Ddatganiad y Polisi Dogfennaeth, fod y newidiadau arfaethedig i'r pum dogfen bolisi yn cael eu cymeradwyo er mwyn eu cynnwys yng nghais yr Awdurdod am Safon Achredu.**

## 4. ADFER AC AILDDOSBARTHU GRANT DATBLYGU CELFYDDYDAU CYMUNEDOL

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ar y cynigion bod yr Awdurdod yn ceisio adennill y swm o £8,496.90 gan Llais (corff ymbarél ar gyfer theatr ieuenctid yn y Sir) oedd yn rhan o grant datblygu celfyddydau cymunedol a dalwyd i'r mudiad yn 2012 ond na ddosbarthwyd.

Rhoddodd Pen-swyddog y Celfyddydau wybod y bwriedir, ar ôl adennill y grant, roi'r arian yn ôl i'r Gronfa Diwylliant / Celfyddydau i'w ailddosbarthu i fudiadau drwy iddynt wneud cais am grant bach, gan ddefnyddio'r ffurflen gais a atodir i'r adroddiad, i gefnogi eu gwaith datblygu celfyddydau.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 Bod yr Awdurdod yn ysgrifennu at Llais i adennill £8,496.90 o grant datblygu celfyddydau cymunedol a dalwyd i'r mudiad yn 2012 ond na ddosbarthwyd.**

**4.2 Ar ôl adennill y grant, ei roi yn ôl i'r 'Gronfa Diwylliant/Celfyddydau' i'w ailddosbarthu yn unol â'r gweithdrefnau, drwy lenwi'r ffurflen gais a atodir i'r adroddiad hwn.**

______________________________ __________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**